

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell,
Merthyr Tudful CF47 8AN

Rhif ffôn: 01685 725000

www.merthyr.gov.uk



Cynllun Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch 2015/16

Mae dyletswydd ar Gyngor Merthyr Tudful i orfodi Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 yn y busnesau y maent yn eu rheoleiddio a ragnodir gan y gyfraith. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cyfarwyddo sut y dylai Awdurdodau Lleol gyflawni'r ddyletswydd hon ac mae wedi dosbarthu'r Cod Gorfodi Awdurdodau Lleol Cenedlaethol. Mae'r Cod yn dweud y dylai Awdurdodau Lleol gynhyrchu cynlluniau gwasanaethau sy'n seiliedig ar risg a gwybodaeth am ymyraethau iechyd a diogelwch, a gweithgarwch gorfodi ac erlyn, sydd ar gael yn gyhoeddus.

1.0 CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

- 1.1 Prif nod CBS Merthyr Tudful yw sicrhau bod yr holl weithwyr yn sector gorfodol yr Awdurdod Lleol (ALI) a'r cyhoedd yn mwynhau amgylchedd gweithio diogel nad yw'n peryglu iechyd.
- 1.2 Ceir rhaglen waith i gyflawni'r nod hon bob blwyddyn. Mae'r Cynllun Gwasanaeth yn gosod y rhaglen waith ac fe'i dyluniwyd i ddweud wrth drigolion, y gymuned fusnesau a'r gynulleidfa ehangach am y trefniadau sydd ar waith ym Merthyr Tudful i reoleiddio iechyd a diogelwch. Lluniwyd y Cynllun yn unol â gofynion Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974 a'r Cod Cydymffurfio Awdurdodau Lleol Cenedlaethol. Cyflawnir y Cynllun gan yr Adran Iechyd yr Amgylchedd.

2.0 CYNLLUN

- 2.1 Mae'r Cynllun Gwasanaeth yn ddogfen sy'n:
 - nodi sut mae'r gwasanaethau hyn yn alinio â'r Cynllun Integredig Sengl a Blaenoriaethau Corfforaethol;
 - rhoi manylion am y gofynion ar y gwasanaeth;
 - rhoi gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir;
 - nodi'r ffordd y bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu;
 - nodi'r adnoddau sydd ar gael i gyflwyno'r gwasanaethau hyn;
 - rhoi manylion am y rhaglen waith sy'n seiliedig ar risgiau ar gyfer y flwyddyn nesaf;
 - nodi sut y bydd y gwasanaeth yn cyflawni unrhyw safonau/targedau perfformiad perthnasol;

- nodi'r risg bosibl i'r gwasanaeth a lle y gallai peidio â bodloni gofynion statudol;
- adolygu perfformiad er mwyn ymdrin ag unrhyw amrywio o fodloni gofynion y cynllun gwasanaeth.

2.2 Fel Awdurdod rydym yn gyfrifol am orfodi deddfwriaeth lechyd a Diogelwch ar draws rhyw 1042 o fusnesau cyflogi, sy'n bennaf yn siopau, arlwywyr a'r diwydiant gwasanaethau. Mae gan yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch ddyletswyddau tebyg o ran safleoedd ffatri, y Gwasanaeth lechyd a'r Awdurdod Lleol hwn.

2.3 Er mwyn targedu ein hadnoddau prin at y meysydd pryder mwyaf sylweddol, rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch ac Awdurdodau Lleol eraill ledled Cymru i gyflawni ymyraethau priodol. Mae nifer o ymyraethau y gellid eu defnyddio, gan gynnwys addysg a chodi ymwybyddiaeth, archwilio, arolygu, gorfodi ac ati. Mae'r Cod yn galw am gadw arolygiadau rhagweithiol dirybudd i sectorau busnes/gweithgareddau penodol sy'n peri'r risgiau mwyaf difrifol a restrir gan yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch, neu le nad ydynt yn rheoli'r peryglon yn gywir.

2.4 Bydd y gwasanaeth yn cynnal yr ystod gyfan o ymyraethau o ran sectorau busnes/gweithgareddau a dargedir yn y Cynllun.

3.0 HERIAU I'R GWASANAETH

3.2 Deddfwriaeth Newydd a Throsglwyddo Swyddogaethau

O fis Ebrill 2014 trosglwyddwyd y swyddogaeth safonau bwyd o'r Gwasanaeth Safonau Masnach i'r Adran lechyd yr Amgylchedd fel rhan o'r agenda effeithlonrwydd. Ni throsglwyddwyd unrhyw adnoddau ynghyd â'r swyddogaeth sydd wedi arwain at bwysau ychwanegol ar y Gwasanaeth lechyd yr Amgylchedd. Yn ogystal, mae deddfwriaeth newydd megis y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn golygu y bu'n rhaid arallgyfeirio adnoddau o weithgarwch iechyd a diogelwch er mwyn cyflawni'r llwyth gwaith ychwanegol hwn. O ganlyniad i hyn, gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y gweithgarwch rheoleiddio iechyd a diogelwch a gynlluniwyd.

4.0 ADOLYGU PERFFORMIAD 2014/15

4.1 Cyflawnodd y gwasanaeth rai o'r elfennau yng nghynllun y llynedd ond nid pob un. Nid oedd modd cynnal rhai meysydd gweithgarwch a gynlluniwyd oherwydd bu rhaid arallgyfeirio adnoddau i gynnal swyddogaethau newydd a roddwyd i'r adran, ynghyd â gostyngiad mewn gallu oherwydd mamolaeth. Mae cyflawniadau'n cynnwys:

- Cyflawnodd y gwasanaeth 100% o'i raglen arolygu risg uchel a gynlluniwyd.
- Cyflawnodd y gwasanaeth un o ddau brosiect cydweithredol a gynlluniwyd yn llwyddiannus fel rhan o Gynllun Ymyrraeth De-ddwyrain Cymru'r llynedd, sef "Rheoli cryptosporidiwm mewn pyllau nofio"

5.0 CASGLIAD

- 5.1 Mae cyflawni'r cynllun gwasanaeth yn llwyddiannus yn dibynnu ar gynnal gallu digonol dros gyfnod y cynllun. Mae cynllun 2015/16 yn bodloni gofynion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac mae angen cymeradwyaeth aelodau.